Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nursing & Midwifery Council

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Llythyr agored at bob nyrs sy'n gweithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol**

Annwyl Gyfaill

**Pwysigrwydd nyrsio gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i COVID-19**

Rydym yn ysgrifennu i ddiolch ichi am eich holl waith caled ac ymroddiad wrth i'r wlad ymateb i'r pandemig COVID-19.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o dan bwysau eithafol, ac mae'r pwysau hynny'n cael eu gwaethygu gan brinder staff oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu. Nyrsys yw'r grŵp mwyaf o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol cofrestredig yn y DU, ac er bod cyfraniad pob gweithiwr proffesiynol yn bwysig ac yn werthfawr, mae heriau penodol yn wynebu'r gweithlu nyrsio yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Mae sgiliau, cefndir, a phrofiad pawb yn hynod bwysig inni, ond rydym yn ysgrifennu heddiw i gydnabod yn arbennig y gwaith diflino y mae cydweithwyr fel chi yn ei gyflawni yn y sector gofal cymdeithasol. Mae gan gydweithwyr yn y maes nyrsio a gofal rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o fodloni anghenion gofal cymhleth miloedd o bobl bob dydd. Diolch ichi am barhau i weithio mor galed i gefnogi'r bobl yr ydych yn gofalu amdanynt yn ystod yr argyfwng hwn.

Rydym yn gwybod bod COVID-19 wedi dod â heriau sylweddol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, a hoffem eich sicrhau nad yw eich pryderon wedi cael eu hanghofio. Byddwn yn parhau i eirioli ar eich rhan mewn perthynas â materion megis cynnal profion a sicrhau bod gennych ddigon o gyflenwadau PPE, ac ynglŷn â phwysigrwydd cefnogi nyrsys yn eu rolau clinigol ac arwain.

Hefyd, rhaid gofyn am eich cymorth. Mae Llywodraeth Cymru, a Gweinyddiaethau'r DU a Datganoledig eraill, wedi cyhoeddi galwad i weithredu yn ddiweddar. Rydym yn galw ar nyrsys profiadol, nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd, i ddychwelyd i'n helpu i ymdopi â'r pwysau eithriadol yr ydym i gyd yn ei wynebu. Bellach, gall y rheini a adawodd gofrestr broffesiynol y

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hyd at 5 mlynedd yn ôl ymuno â'r gofrestr COVID19 dros dro (mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://www.nmc.org.uk/news/coronavirus/ ).
Mae mawr angen i nyrsys a gweithwyr gofal, o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol cyfan, ddychwelyd i gynorthwyo – yn enwedig y rheini sydd â phrofiad ym maes nyrsio gofal cymdeithasol. Byddem yn ddiolchgar tu hwnt pe gallech annog eich cyn gydweithwyr i ddod yn ôl i weithio.

Rydych eisoes yn gwybod pa mor bwysig yw nyrsys mewn gofal cymdeithasol, a faint o wahaniaeth y maent yn ei wneud i fywydau pobl sy'n byw mewn cartrefi preswyl ac yn y gymuned. Mae angen eich help i ledaenu'r neges mor eang â phosibl. Bydd nyrsys sy'n dychwelyd i helpu yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl hŷn, a'r rheini sy'n byw gyda dementia, anableddau corfforol neu anableddau dysgu, neu anghenion iechyd meddwl.

Byddai o gymorth mawr pe gallech hyrwyddo'r rolau hollbwysig hyn. Mae gennym lawer o hanesion bywyd go iawn sy'n deillio o astudiaethau achos o weithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru a allai eich helpu i hyrwyddo.
https://www.gofalwn.cymru/?_ga=2.247790798.839732793.1588583579-1890197521.1588583579

Rydym yn diolch o galon ichi am bopeth yr ydych yn ei wneud. Rydym ninnau, ynghyd â'r miloedd o bobl a theuluoedd yr ydych yn gwneud gwahaniaeth iddynt, yn gweld ac yn gwerthfawrogi eich holl waith anhygoel. Gyda chymorth y rheini sy'n dychwelyd i weithio yn y maes gofal cymdeithasol, gallwn i gyd sicrhau bod pawb yn cael y gofal a'r cymorth y maent yn eu haeddu.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch chi, neu'ch cyn gydweithwyr, gymryd rhan, ewch i: NMC Covid-19 webhub.

Gyda diolch.

Sue Evans

**Sue Evans, Chief Executive, Social Care Wales**

**Andrea Sutcliffe CBE, Chief Executive and Registrar, Nursing and Midwifery Council**

Jean White

**Professor Jean White CBE, Chief Nursing Officer for Wales**

**Albert Heaney, Deputy Director General**